Ofcom
# Bwletin Darlledu ac Ar Alw

Rhifyn 536, 15 Rhagfyr 2025



## Nodyn i Ddarlledwyr

### Bwyd a diod llai iach: Diweddariadau i'r Cod Darlledu a Rheolau a Chanllawiau'r Gwasanaeth Rhaglenni Ar Alw

O 5 Ionawr 2026 ymlaen, bydd cyfyngiadau newydd yn dod i rym ar hysbysebu cynhyrchion bwyd a diod llai iach ar y teledu, ar wasanaethau rhaglenni ar alw ("ODPS") ac ar-lein. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebu 2003.[1]

Ofcom yw'r awdurdod rheoleiddio priodol sy'n gyfrifol am orfodi'r cyfyngiadau hyn. O dan drefniadau cyd-reoleiddio, bydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu yn gorfodi'r cyfyngiadau hysbysebu o ddydd i ddydd, gydag Ofcom yn darparu cefnogaeth statudol.[2]

Mae'r cyfyngiadau hefyd yn berthnasol i nawdd gan gynhyrchion bwyd a diod llai iach ar y teledu ac ODPS. O dan y trefniadau cyd-reoleiddio, Ofcom sy'n gyfrifol am orfodi'r agweddau hyn ar y cyfyngiadau.

Yn 2023, ymgynghorodd Ofcom ar gynigion ar gyfer rhoi'r cyfyngiadau ar waith. Mae'r ymgynghoriad[3] a'r datganiad[4] yn nodi testun rheolau newydd i'w hychwanegu at adrannau nawdd Adran Naw o'r Cod Darlledu ("y Cod") a Rheolau a Chanllawiau'r Gwasanaeth Rhaglenni Ar Alw ("Rheolau a Chanllawiau'r ODPS").

[1] Gweler adran 321A, Rhan 4B a Rhan 4C o Ddeddf Cyfathrebu 2003.

[2] Gweler Sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw am ragor o fanylion.

[3] Ymgynghoriad: Rheoleiddio hysbysebu bwyd a diod llai iach – Gweithredu cyfyngiadau statudol newydd, Ofcom, 21 Chwefror 2023.

[4] Datganiad: Rheoleiddio hysbysebu ar gyfer bwyd a diod llai iach – Gweithredu'r cyfyngiadau statudol newydd, Ofcom, 10 Gorffennaf 2023.

Roedd y rheolau hyn yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a oedd ar waith ar adeg y broses ymgynghori. Wedi hynny, cyflwynwyd rheoliadau newydd[5] sy'n rhoi eglurhad pellach ar y cyfyngiadau, gan gynnwys mewn perthynas ag eithriad ar gyfer 'hysbysebu brand'.

O ganlyniad, mae Ofcom wedi gwneud mân ddiwygiadau i destun y rheolau a gafodd eu cynnwys yn ein hymgynghoriad a'n datganiad yn 2023. Mae'r fersiynau terfynol o'r rheolau hyn a'r diffiniadau cysylltiedig wedi'u nodi isod. Sylwch nad yw'r ychwanegiadau hyn yn disodli unrhyw reolau presennol. Dyma gynghori darlledwyr a Darparwyr Gwasanaethau a Hysbyswyd y bydd y rheolau newydd yn cael eu hychwanegu at y Cod a Rheolau a Chanllawiau'r ODPS ar 5 Ionawr 2026.

## Cod Darlledu

9.17(a) Ni chaniateir i raglenni (gan gynnwys sianel) gael eu noddi gan gynnyrch bwyd neu ddiod llai iach y gellir ei adnabod rhwng 5.30am a 9.00pm.

Nodyn 1: Nid yw Rheol 9.17(a) yn gymwys i nawdd gan neu ar ran busnes bwyd a diod fach neu ganolig ("BBaCh bwyd a diod"), o fewn yr ystyr a nodir yn Rheoliadau Hysbysebu (Diffiniadau ac Eithriadau Bwyd Llai Iach) 2024.

Nodyn 2: Mae nawdd brand nad yw'n darlunio cynnyrch bwyd neu ddiod llai iach penodol, o fewn yr ystyr a nodir yn Rheoliadau Hysbysebu (Bwyd a Diod Llai Iach) (Eithriad Hysbysebu Brand) 2025, wedi'i eithrio o Reol 9.17(a).

Nodyn 3: Gellir adnabod cynnyrch bwyd neu ddiod llai iach, mewn perthynas â nawdd, os gellid disgwyl yn rhesymol i bersonau yn y DU (neu unrhyw ran o'r DU) sylweddoli bod y nawdd ar gyfer y cynnyrch hwnnw.

**Ystyr bwyd a diod llai iach**

Mae cynnyrch bwyd neu ddiod yn 'llai iach' os:

- mae'n dod o fewn categori bwyd neu ddiod a bennir yn Rheoliadau Hysbysebu (Diffiniadau ac Eithriadau Bwyd Llai Iach) 2024;
- mae'n gynnyrch sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr (HFSS), fel y'i diffinnir gan Ganllawiau Technegol Proffilio Maetholion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2011, sy'n ymwneud â'r cynllun proffilio maetholion a ddyfeisiwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd y DU i'w ddefnyddio gan Ofcom.

## Rheolau a Chanllawiau ODPS

2.52: Ni chaiff ODPS gynnwys cyhoeddiadau nawdd ar gyfer cynnyrch bwyd neu ddiod llai iach y gellir ei adnabod rhwng 5.30am a 9.00pm.

[5] Gweler Rheoliadau Hysbysebu (Diffiniadau ac Eithriadau Bwyd Llai Iach) 2024 a Rheoliadau Hysbysebu (Bwyd a Diod Llai Iach) (Eithriad Hysbysebu Brand) 2025.

**Nodiadau**

Mae cynnyrch bwyd neu ddiod yn 'llai iach' os:

- mae'n dod o fewn categori bwyd a diod a bennir yn Rheoliadau Hysbysebu (Diffiniadau ac Eithriadau Bwyd Llai Iach) 2024;
- mae'n gynnyrch bwyd neu ddiod sy'n uchel mewn braster, halen neu siwgr (HFSS), fel y'i diffinnir gan Ganllawiau Technegol Proffilio Maetholion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd yn 2011, sy'n ymwneud â'r cynllun proffilio maetholion a ddyfeisiwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd y DU i'w ddefnyddio gan Ofcom.

Gellir adnabod cynnyrch bwyd neu ddiod llai iach, mewn perthynas â nawdd, os gellid disgwyl yn rhesymol i bobl yn y DU (neu unrhyw ran o'r DU) allu adnabod bod y nawdd ar gyfer y cynnyrch hwnnw.

Nid yw paragraff 2.52 (uchod) yn gymwys i gyhoeddiadau nawdd gan neu ar ran busnes bwyd a diod fach neu ganolig ("BBaCh bwyd neu ddiod"), o fewn yr ystyr a roddir gan Reoliadau Hysbysebu (Diffiniadau ac Eithriadau Bwyd Llai Iach) 2024. Mae nawdd brand nad yw'n darlunio cynnyrch bwyd neu ddiod llai iach penodol, o fewn yr ystyr a nodir yn Rheoliadau Hysbysebu (Bwyd a Diod Llai Iach) (Eithriad Hysbysebu Brand) 2025, wedi'i eithrio o'r cyfyngiad a nodir ym mharagraff 2.52.